Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu
Independent Office for Police Conduct

# Nodyn cyngor gweithredol i baneli heddlu a throseddu

## ar ymdrin â chwynion neu faterion ymddygiad a gofnodwyd yn erbyn comisiynwyr heddlu a throseddu

Tachwedd 2022

# Nodyn cyngor gweithredol i baneli heddlu a throseddu

Bydd y nodyn hwn yn helpu paneli heddlu a throseddu i ymdrin â chwynion neu faterion ymddygiad a gofnodwyd yn erbyn comisiynwyr heddlu a throseddu. Nid yw'n ganllaw ffurfiol a gyhoeddwyd o dan Reoliadau Cyrff Plismona Lleol Etholedig (Cwynion a Chamymddwyn) 2012, y cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel 'Rheoliadau 2012' oni bai y nodir yn wahanol.

## 1. Deiliaid swyddi perthnasol

1.1. Mae 'deiliaid swyddi perthnasol' yn golygu:

- unrhyw gomisiynydd heddlu a throseddu (PCC) neu unrhyw gomisiynydd heddlu, tân a throseddu (PFCC)
- unrhyw ddirprwy gomisiynydd heddlu a throseddu
- yn Llundain, deiliad Swyddfa'r Maer ar gyfer Plismona a Throseddu (MOPAC). O dan amgylchiadau arferol, maer Llundain fydd hwn
- yn Llundain, unrhyw ddirprwy faer dros blismona a throseddu y gellir ei benodi
- unrhyw unigolyn arall a benodir i gyflawni rôl comisiynydd heddlu a throseddu neu ddirprwy gomisiynydd heddlu a throseddu, at ddibenion Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (fel y diwygiwyd)

## 2. Derbyniad o gŵyn

2.1. Pan fydd y gŵyn yn ymwneud â deiliad swydd perthnasol, mae'n rhaid i'r panel heddlu a throseddu benderfynu ai hwn yw'r panel cywir i ymdrin â'r gŵyn. Os nad ydyw, mae'n rhaid iddo ddweud wrth y panel cywir am y gŵyn (Rheoliad 9(2) o Reoliadau 2012).

2.2. Pan wneir cwyn yn uniongyrchol i ddeiliad swydd perthnasol am ei ymddygiad ei hun, mae'n rhaid i'r deiliad swydd perthnasol hysbysu'r panel ar gyfer ei ardal heddlu am y gŵyn (Rheoliad 9(4) o Reoliadau 2012).

2.3. Pan wneir cwyn i brif swyddog am ymddygiad deiliad swydd perthnasol, mae'n rhaid i'r prif swyddog hysbysu'r panel ar gyfer ardal heddlu'r PCC am y gŵyn (Rheoliad 9(3) o Reoliadau 2012).

2.4. Os bydd y panel, deiliad swydd perthnasol neu brif swyddog yn penderfynu peidio â dweud wrth y panel cywir am gŵyn, mae'n rhaid iddynt ddweud wrth yr achwynydd am y penderfyniad i beidio â gweithredu ac ar ba sail y gwnaed y penderfyniad (Rheoliad 10(2) o'r Rheoliadau 2012).

2.5. Pan ddaw cwyn i law'r panel cywir, mae'n rhaid i'r panel gofnodi'r gŵyn (Rheoliad 9(5) o Reoliadau 2012). Fodd bynnag, nid oes rhaid cofnodi'r gŵyn os:

- yw testun y gŵyn wedi'i drin, neu eisoes yn cael ei drin, drwy achos troseddol yn erbyn y deiliad swydd perthnasol (er enghraifft: wedi'i rybuddio, ei wysio neu ei gyhuddo o drosedd) , neu
- cafodd y gŵyn ei thynnu'n ôl yn unol â rheoliad 16 (Rheoliad 9(6) o Reoliadau 2012).

2.6. Mae 'cofnodi' yn golygu bod cofnod yn cael ei wneud o'r gŵyn (er enghraifft, mewn cronfa ddata cwynion). Mae hyn yn golygu bod yn rhaid iddo gael ei drin yn ffurfiol yn unol â deddfwriaeth ac o dan y darpariaethau a nodir yn y canllawiau hyn. Dylid cofnodi cwynion mewn rhyw fath o gofrestr y gall SAYH ei gweld a'i harchwilio os oes angen. Bydd hyn yn galluogi'r panel i olrhain cynnydd y gŵyn ac adrodd ar ddata cwynion.

2.7. Mae'n rhaid i'r panel ddarparu copi o'r cofnod a wnaed o'r gŵyn i'r achwynydd (Rheoliad 31(1)(a) o Reoliadau 2012).

2.8. Mae'n rhaid i'r panel roi copi o'r gŵyn a gofnodwyd i'r deiliad swydd perthnasol sy'n destun y gŵyn. Mae'n rhaid gwneud hyn heblaw bod y panel yn credu y gallai gwneud hynny ragfarnu unrhyw ymchwiliad troseddol neu achos sydd ar y gweill, neu y byddai fel arall yn groes i les y cyhoedd. Os bydd y panel yn penderfynu peidio â rhoi copi o'r gŵyn i'r deiliad swydd perthnasol, mae'n rhaid adolygu'r penderfyniad hwn yn rheolaidd. Os rhoddir copi o'r gŵyn i'r deiliad swydd perthnasol, gellir cadw enw'r achwynydd neu unrhyw berson arall yn ddienw (Rheoliad 31 o Reoliadau 2012).

2.9. Pan fydd panel yn ansicr os yw'n briodol rhoi copi o'r gŵyn i'r deiliad swydd perthnasol, gallant ofyn am gyngor perthnasol gan Swyddog Monitro'r awdurdod lleol a/neu Brif Weithredwr OPCC cyn gwneud hynny.

2.10. Os bydd y panel yn penderfynu peidio â chofnodi cwyn, mae'n rhaid iddo hysbysu'r achwynydd yn ysgrifenedig o'r penderfyniad i beidio â gweithredu a'r sail dros wneud y penderfyniad (Rheoliad 10(2) o Reoliadau 2012). Dylai'r hysbysiad hwn esbonio'r rhesymau dros y penderfyniad hwn.

## 3. Materion ymddygiad

3.1. At ddibenion Rheoliadau 2012, mae mater ymddygiad yn fater pan fydd awgrym (boed o'r amgylchiadau neu fel arall) y

gallai’r deiliad swydd perthnasol fod wedi cyflawni trosedd (Deddf Diwygio’r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, Adran 31(1)(b)).

3.2. Mae'n rhaid cofnodi mater ymddygiad lle mae naill ai:

- y panel yn cael gwybod bod achos sifil yn erbyn y deiliad swydd perthnasol wedi’i ddwyn neu’n debygol o gael ei ddwyn gan aelod o’r cyhoedd ac yr ymddengys ei fod yn cynnwys neu y byddai’n ymwneud â mater ymddygiad (Rheoliad 11 o Rheoliadau 2012), neu
- fater ymddygiad yn dod i sylw’r panel mewn unrhyw achos arall (Rheoliad 12 o Reoliadau 2012)

3.3. Fodd bynnag, os yw’r naill neu’r llall o’r eithriadau canlynol yn berthnasol, nid oes angen cofnodi mater ymddygiad:

- mae'r mater eisoes wedi cael ei gofnodi fel cwyn o dan reoliad 9(5) o’r rheoliadau, neu
- mae’r mater wedi cael ei drin, neu eisoes yn cael ei drin, drwy gyfrwng achos troseddol yn erbyn y deiliad swydd perthnasol (Rheoliadau 11(4) a 12(2) o Reoliadau 2012)

3.4. Mae ‘cofnodi’ yn golygu bod cofnod yn cael ei wneud o’r mater ymddygiad (er enghraifft, mewn cronfa ddata materion ymddygiad). Mae hyn yn golygu bod yn rhaid iddo gael ei drin yn ffurfiol yn unol â'r ddeddfwriaeth (Rheoliadau 2021 a Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011). Dylid cofnodi materion ymddygiad mewn rhyw fath o gofrestr y gall SAYH ei gweld a’i harchwilio, os oes angen. Bydd hyn yn caniatáu i'r panel olrhain cynnydd y mater ymddygiad ac adrodd ar ddata.

3.5. Os daw SAYH yn ymwybodol o fater ymddygiad sydd heb ei gofnodi gan y panel, gall SAYH gyfarwyddo’r panel i gofnodi’r mater ac mae'n rhaid i’r panel wneud hynny (Rheoliadau 12(3) o Reoliadau 2012).

# 4. Cadw tystiolaeth

4.1. Pan ddaw panel heddlu a throseddu yn ymwybodol o gŵyn neu fater ymddygiad ynghylch ymddygiad deiliad swydd perthnasol, mae'n rhaid i’r panel gymryd pob cam priodol i gael a chadw tystiolaeth am yr ymddygiad dan sylw. Gall SAYH roi cyfarwyddiadau i’r panel ar gyfer cael a chadw tystiolaeth. Mae'n rhaid i’r panel gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau o’r fath (Rheoliadau 8(1) a (5) o Reoliadau 2012).

4.2. Pan fydd deiliad swydd perthnasol yn dod yn ymwybodol o gŵyn neu fater ymddygiad am ei ymddygiad ei hun, mae'n rhaid i’r deiliad swydd perthnasol gymryd pob cam priodol i gael a chadw tystiolaeth am yr ymddygiad

dan sylw. Gall SAYH neu'r panel roi cyfarwyddiadau i'r deiliad swydd perthnasol i gymryd camau i gael neu gadw tystiolaeth. Mae'n rhaid i'r deiliad swydd perthnasol gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau o'r fath (Rheoliadau 8(2), (4) a (6) o Reoliadau 2012).

# 5. Atgyfeiriadau at SAYH

5.1. Mae'n rhaid i'r panel heddlu a throseddu gyfeirio'r canlynol at SAYH:

- holl faterion ymddygiad a gofnodwyd
- pob cwyn ddifrifol (hynny yw, cwyn sy'n golygu neu'n ymwneud â chyflawni trosedd, neu sy'n ymddangos ei fod yn gyfystyr â chyflawni trosedd)
- unrhyw fater ymddygiad neu gŵyn ddifrifol pan fydd SAYH wedi dweud wrth y panel bod rhaid ei hatgyfeirio (Rheoliadau 13(1) a (2) o Reoliadau 2012).

5.2. O ran cwynion, dylai'r panel wneud asesiad cychwynnol o'r gŵyn (cyn atgyfeirio at SAYH). Gall fod yn briodol i'r PCP gysylltu â'r achwynydd i ddeall y gŵyn yn llawn cyn y gellir cynnal asesiad. Dylai'r panel edrych ar yr ymddygiad a honnir yn y gŵyn ac ystyried os byddai'r ymddygiad hwnnw, o'i brofi, yn gŵyn ddifrifol (Rheoliad 2 o Reoliadau 2012). Os byddai, yna mae'r meini prawf ar gyfer atgyfeirio gorfodol yn cael eu bodloni. Nid yw'r panel ar y cam hwnnw'n gallu ystyried rhinweddau'r gŵyn, ond yn hytrach dylai ganolbwyntio ar natur yr hyn a honnir. Ni fydd yn ddigon i achwynydd, yn syml, ddweud bod cwyn ddifrifol neu drosedd yn cael ei honni. Fodd bynnag, unwaith y bydd yr achwynydd yn mynd y tu hwnt i hynny ac yn honni ymddygiad penodol, yna dylid asesu os byddai ymddygiad o'r fath, o'i brofi, yn gyfystyr â throsedd.

5.3. Dylid cynnwys yr asesiad cychwynnol hwn, a'r wybodaeth a'r dystiolaeth a ystyriwyd yn yr asesiad hwnnw, yn y papurau atgyfeirio. Dim ond cwynion sy'n cael eu hasesu fel "cwynion difrifol" y dylid eu cyfeirio at SAYH.

5.4. Mae Rheoliad 7 o Reoliadau 2012 yn nodi y gall y Panel ddirprwyo'r asesiad cychwynnol hwn i Brif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (OPCC) neu Swyddog Monitro'r GLA ar gyfer PCP Cynulliad Llundain. Mae Rheoliadau Panel yr Heddlu a Throseddu (Cymhwyso Deddfiadau Awdurdod Lleol) 2012 hefyd yn caniatáu i benderfyniadau o'r fath gael eu dirprwyo i is-bwyllgor o'r panel neu i swyddog awdurdod lleol. Bydd SAYH ond yn derbyn atgyfeiriad lle mae tystiolaeth bod naill ai'r panel neu is-bwyllgor neu swyddog a benodwyd yn briodol wedi penderfynu bod y mater yn gŵyn ddifrifol neu'n fater ymddygiad cofnodadwy.

5.5. Lle mae’r PCP wedi dirprwyo’r gwaith o drin cwynion i is-bwyllgor o’r panel neu swyddog awdurdod lleol, byddai SAYH yn disgwyl cael tystiolaeth ysgrifenedig o’r dirprwyo yn cyfeirio naill ai at Reoliadau Panel yr Heddlu a Throseddu (Cymhwyso Deddfiadau Awdurdod Lleol) 2012 neu at adran 101(2) a (3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y diwygiwyd).

5.6. Nid yw’r ffaith bod cwyn ddifrifol neu fater ymddygiad cofnodadwy yn sensitif neu’n fater brys yn diystyru’r gofyniad i’r panel neu berson ag awdurdod dirprwyedig wneud y penderfyniadau, cyn gwneud atgyfeiriad. Dylai PCPau fod â golwg ddigonol ar fanylion y mater er mwyn dod i benderfyniad gwybodus a phenderfynu pa drosedd a honnir. Dylai PCPau ystyried pa drefniadau sydd ganddynt ar waith i osgoi oedi wrth atgyfeirio materion brys neu sensitif. Dylid cydbwyso'r angen i 6 ddarparu gwybodaeth yn erbyn prydlondeb gwneud yr atgyfeiriad.

5.7. Dylai’r panel lenwi ffurflen atgyfeirio 7.1 SAYH gyda manylion y gŵyn neu’r mater ymddygiad y mae am ei atgyfeirio. Mae’n bwysig bod y ffurflen atgyfeirio’n cael ei chwblhau’n llawn a bod y camwedd(au) troseddol honedig y mae’r panel yn ei hystyried yn amlwg wedi’i amlinellu/hamlinellu’n glir yn hwn. Lle nad yw’r ffurflen wedi’i chwblhau’n llawn a/neu mae/nid yw'r camwedd(au) troseddol honedig wedi’i hamlinellu, efallai y bydd SAYH yn gofyn i’r PCP ddarparu gwybodaeth bellach neu ychwanegol. Dylai'r atgyfeiriad hefyd gynnwys unrhyw ddogfennaeth ategol sydd ar gael. Mae’r holl wybodaeth sy’n cael ei storio a’i thrin gan SAYH yn cael ei thrin yn unol â dosbarthiadau diogelwch y llywodraeth. Dylid anfon y ffurflen wedi'i chwblhau drwy e-bost diogel at nat_referrals_inbox@policeconduct.gov.uk.

5.8. Dylid anfon y ffurflen atgyfeirio at SAYH cyn gynted â phosibl. Mae’r rheoliadau’n dweud bod yn rhaid i hyn fod cyn gynted ag y mae'n ymarferol a dim hwyrach na diwedd y diwrnod ar ôl y diwrnod y daw’n amlwg gyntaf i’r panel naill ai:

- bod yn rhaid cyfeirio’r gŵyn neu’r mater ymddygiad, neu
- bod SAYH yn dweud wrth y panel bod yn rhaid iddo gael ei atgyfeirio (Rheoliadau 13(3) a (4) o Reoliadau 2012).

## Pa wybodaeth sydd ei hangen ar SAYH gan y PCP?

5.8.1. Dylid anfon atgyfeiriad bob amser ar ffurflen atgyfeirio 7.1 SAYH i sicrhau bod yr holl wybodaeth sylfaenol yn cael ei darparu. Lle mae cwyn wedi cael ei gwneud, dylid darparu cadarnhad bod y gŵyn wedi’i chofnodi (gan gynnwys unrhyw gyfeirnodau) ochr yn ochr ag asesiad y Panel ynghylch pam mae'n bodloni’r meini prawf statudol. Lle gwnaed yr asesiad gan is-bwyllgor neu unigolyn arall, dylid darparu'r ddirprwyaeth ddogfenedig o'r PCP.

5.8.2. Lle mae dogfennau ategol ar gael yn rhwydd, dylid bob amser anfon y rhain gyda’r ffurflen atgyfeirio i ganiatáu i SAYH wneud asesiad rhesymol o’r math o ymchwiliad sydd ei angen. Wrth gyflwyno atgyfeiriad i SAYH, dylid darparu’r wybodaeth ganlynol pan fydd ar gael:

- enwau'r PCP sy'n cyfeirio a'r deiliad swydd perthnasol
- manylion cyswllt yr unigolyn y disgwylir i SAYH ohebu ag ef
- natur y gŵyn ddifrifol neu’r mater ymddygiad sy’n cael ei atgyfeirio
- lleoliad y digwyddiad sy’n cael ei atgyfeirio
- dyddiad ac amser y digwyddiad
- enw a chyfeiriad yr achwynydd
- dyddiad geni'r achwynydd
- natur a nifer yr honiadau
- nifer tystion yr heddlu, os o gwbl
- nifer y tystion annibynnol
- tarddiad ethnig yr achwynydd
- ffurflen gwyno
- cofnodion digwyddiadau (os yn gymwys)
- cofnodion dalfa (os yn gymwys)

5.8.3. Nid yw hon yn rhestr gyflawn. Dylai’r PCP gyflenwi’r holl wybodaeth berthnasol sydd ar gael sy’n debygol o gynorthwyo SAYH i wneud ei benderfyniad, ynghyd â’r
ffurflen atgyfeirio 7.1. Lle ceisiwyd rhagor o wybodaeth ond nad oedd ar gael adeg yr atgyfeiriad, dylid nodi hyn ar y ffurflen atgyfeirio 7.1 ochr yn ochr ag amserlenni (os ydynt yn hysbys) o ran pryd y bydd yr wybodaeth ar gael. Unwaith y bydd yn amlwg bod y mater yn bodloni’r prawf statudol ar gyfer atgyfeirio, ni ddylai’r atgyfeiriad gael ei ohirio tra gofynnir am ragor o wybodaeth.

5.8.4. Mae'n rhaid i’r panel hysbysu’r achwynydd (os oes un) am yr atgyfeiriad i SAYH. Maen rhaid i’r panel hefyd hysbysu’r deiliad swydd perthnasol o dan sylw am yr atgyfeiriad, heblaw bod y panel o’r farn y gallai gwneud hynny ragfarnu ymchwiliad posibl i’r gŵyn neu’r mater ymddygiad yn y dyfodol (Rheoliad 13(6) o Reoliadau 2012). Dylid gwneud yr hysbysiadau hyn yn ysgrifenedig.

5.8.5. Cyn cyflwyno atgyfeiriad, os yw’r panel yn dymuno cysylltu â SAYH yn ystod oriau swyddfa (dydd Llun i ddydd Gwener 9 am – 5 pm), gellir gwneud hyn trwy ffonio’r Uned Asesu ar 0161 246 8504. Fel arall, os yw’r panel yn dymuno gwneud atgyfeiriad brys i SAYH y tu allan i oriau swyddfa, gellir gwneud hyn drwy ffonio 0845 300 1972. Os nad oes ymateb, gallwch adael neges gydag enw a rhif y galwr, y ffaith eich bod yn ffonio ar ran y

panel, ac i ba ardal heddlu y mae’r atgyfeiriad yn berthnasol. Bydd y rhif hwn yn caniatáu cyswllt uniongyrchol â thîm ar alwad SAYH.

### 5.9 Prosesu'r atgyfeiriad

5.9.1. Bydd SAYH yn penderfynu a oes angen ymchwilio i’r gŵyn neu’r mater ymddygiad neu beidio (Rheoliad 14(1) o Reoliadau 2012). Bydd yn hysbysu'r panel yn ysgrifenedig o'i benderfyniad. Os bydd SAYH yn penderfynu bod angen ymchwiliad, bydd yn penderfynu os dylai fod yn ymchwiliad a reolir neu’n ymchwiliad annibynnol.

5.9.2. Os bydd SAYH yn penderfynu nad oes angen ymchwilio i gŵyn, bydd yn cyfeirio’r gŵyn yn ôl i’r panel i’w thrin yn unol â Rhan 4 o’r rheoliadau (Rheoliad 14(2)(a) o Reoliadau 2012). Bydd SAYH yn dweud wrth yr achwynydd a’r deiliad swydd perthnasol y cwynwyd amdano am y penderfyniad hwn (Rheoliad 14(3) o Reoliadau 2012).

5.9.3. Os bydd SAYH yn penderfynu nad oes angen ymchwilio i fater ymddygiad, bydd yn cyfeirio’r mater ymddygiad yn ôl at y panel i’w drin mewn unrhyw fodd mae'r panel yn gweld yn addas (Rheoliad 14(2)(b) o Reoliadau 2012). Bydd SAYH yn dweud wrth y deiliad swydd perthnasol am y penderfyniad hwn (Rheoliad 14(3) o Reoliadau 2012).

## 6. Datgymhwysiad

6.1. Mewn rhai amgylchiadau, mae'r rheoliadau'n caniatáu i gŵyn a gofnodwyd (nid mater ymddygiad) gael ei thrin y tu allan i'r weithdrefn statudol. Cyfeirir at hyn fel “datgymhwysiad.” Mae'r opsiwn hwn ar gael dim ond pan:

- nad yw SAYH yn delio â’r gŵyn, neu
- nad yw’r gŵyn wedi cael ei hatgyfeirio, neu nad yw’n ofynnol iddi gael ei hatgyfeirio at SAYH ac nad yw’r gŵyn wedi cael ei hatgyfeirio’n ôl at y panel o dan Reoliad 14(2),

a phan mae'r gŵyn yn dod o fewn y disgrifiad o gwynion a nodir yn Rheoliad 15(3), a

- bod y panel yn penderfynu na ddylai gael ei thrin o dan Ran 4 o Reoliadau 2012, neu
- bod y panel yn penderfynu na ddylai gymryd unrhyw gamau mewn perthynas â hi

Mewn amgylchiadau o’r fath, caiff y panel ymdrin â chwyn a gofnodwyd ym mha bynnag fodd (os o gwbl) y mae'n gweld yn addas.

## 6.2 Y seiliau dros ddatgymhwysiad (Rheoliad 15(3) o Reoliadau 2012)

Gall y PCP ymdrin â chwyn a gofnodwyd y tu allan i'r Rheoliadau os yw'n ystyried:-

6.2.1. Mae'r gŵyn yn ymwneud yn gyfan gwbl ag ymddygiad y deiliad swydd perthnasol mewn perthynas ag aelod o staff y deiliad swydd perthnasol ar yr adeg yr oedd yr ymddygiad i fod wedi digwydd.

6.2.2. Mae mwy na 12 mis wedi mynd heibio rhwng y digwyddiad, neu'r digwyddiad diweddaraf, a arweiniodd at y gŵyn a gwneud y gŵyn, ac mae naill ai:

- dim rheswm da dros yr oedi, neu
- debygolrwydd y byddai oedi yn achosi anghyfiawnder

6.2.3. Mae'r mater eisoes yn destun cwyn.

6.2.4. Nid yw'r gŵyn yn rhoi enw a chyfeiriad yr achwynydd nac unrhyw unigolyn arall â diddordeb, ac nid yw'n rhesymol ymarferol dod o hyd i enw neu gyfeiriad.

6.2.5. Mae'r gŵyn yn flinderus, sy'n golygu ei bod yn bosibl dangos bod y gŵyn yn cael ei wneud heb sail a'i bod yn bwriadu achosi pryder, gofid, annifyrrwch neu embaras.

6.2.6. Mae'r gŵyn yn ormesol, sy'n golygu bod y gŵyn yn cael ei gwneud yn ddi-sail a'i bod wedi'i bwriadu neu'n debygol o arwain at driniaeth feichus, llym neu anghyfiawn i'r sawl y cwynir yn ei erbyn.

6.2.7. Mae'r gŵyn yn gamddefnydd o weithdrefn. Mae'r sail hon yn bellgyrhaeddol a gall gwmpasu nifer o wahanol sefyllfaoedd lle gellir dangos bod system gwynion yr heddlu yn cael ei chamddefnyddio neu ei thrin i ddylanwadu ar broses neu ganlyniad arall.

6.2.8. Mae'r gŵyn yn ailadroddus (fel y diffinnir yn Rheoliad 4 o Reoliadau 2012).

6.3. Os bydd y panel yn penderfynu datgymhwyso gofynion y rheoliadau, mae'n rhaid iddo ddweud wrth yr achwynydd ei fod wedi penderfynu ymdrin â'r gŵyn yn y modd hwn (Rheoliad 15(5) o Reoliadau 2012).

# 7. Tynnu cwynion yn ôl

7.1. Os bydd y panel heddlu a throseddu yn derbyn hysbysiad ysgrifenedig wedi'i lofnodi gan achwynydd, neu unigolyn sy'n gweithredu ar ei ran, ei fod yn tynnu'r gŵyn yn ôl neu nad yw am i unrhyw gamau ychwanegol gael eu cymryd ar y gŵyn, yna mae'n rhaid i'r panel gofnodi'r ffaith bod y gŵyn wedi'i thynnu'n ôl (Rheoliad 16(1) o Reoliadau 2012).

7.2. Os cafodd y gŵyn dan sylw ei chyfeirio at SAYH a heb ei hatgyfeirio'n ôl at y panel (hynny yw, mae naill ai'n dal i gael ei hystyried gan SAYH neu mae SAYH wedi penderfynu y dylid cynnal ymchwiliad wedi'i reoli neu ymchwiliad annibynnol) mae'n rhaid i'r panel hysbysu SAYH am dynnu'r gŵyn yn ôl (Rheoliad 16(3) o Reoliadau 2012). Bydd SAYH wedyn yn penderfynu a ddylai'r gŵyn a dynnwyd yn ôl gael ei thrin fel mater ymddygiad a bydd yn dweud wrth y panel am ei benderfyniad (Rheoliad 16(5) o Reoliadau 2012).

7.3. Mewn unrhyw achos arall, mae'n rhaid i'r panel ystyried a yw'r gŵyn a dynnwyd yn ôl yn ymwneud ag ymddygiad y dylid ei drin fel mater ymddygiad, (hynny yw, mae'n ymwneud â chyflawni trosedd, neu'n ymddangos ei fod yn cynnwys cyflawni trosedd (Rheoliad 16(4)) o Reoliadau 2012). Os felly, mae'n rhaid iddo wedyn gael ei gofnodi a'i drin fel mater ymddygiad (Rheoliad 16(6) o Reoliadau 2012). Os nad ydyw, nid oes angen cymryd unrhyw gamau ychwanegol ynghylch y gŵyn.

7.4. Os yw achwynydd wedi nodi ei fod yn dymuno tynnu cwyn yn ôl ond nad yw'n darparu hysbysiad ysgrifenedig wedi'i lofnodi, mae'n rhaid i'r panel ysgrifennu at yr achwynydd i ganfod os yw'n dymuno tynnu'r gŵyn yn ôl. Os bydd yr achwynydd yn ymateb ac yn nodi ei fod yn dymuno tynnu'r gŵyn yn ôl, neu os nad oes ymateb o fewn 21 diwrnod, dylid trin y gŵyn fel pe bai hysbysiad ysgrifenedig wedi'i lofnodi o dynnu'n ôl wedi'i dderbyn. Os yw'r achwynydd yn ymateb nad yw'n dymuno tynnu'r gŵyn yn ôl, mae'n rhaid parhau i ymdrin â'r gŵyn o dan y rheoliadau (Rheoliad 16(7) ac (8) o Reoliadau 2012).

7.5. Mae'n rhaid i'r panel ddweud wrth y deiliad swydd perthnasol y cwynir amdano os:

- yw'r panel yn cofnodi bod cwyn wedi'i thynnu'n ôl neu'r ffaith nad yw'r achwynydd am i unrhyw gamau ychwanegol gael eu cymryd ynghylch ei gŵyn
- yw'r panel yn penderfynu y dylid trin cwyn fel mater ymddygiad
- yw SAYH yn penderfynu y dylid trin cwyn fel mater ymddygiad
- na fydd y gŵyn yn cael ei thrin rhagor o dan y rheoliadau oherwydd tynnu'n ôl (Rheoliad 16(9) o Reoliadau 2012)

7.6. Fodd bynnag, pe bai'r panel wedi penderfynu'n flaenorol i beidio â dweud wrth y deiliad swydd perthnasol y cwynwyd am y gŵyn oherwydd ei fod yn credu y gallai niweidio unrhyw ymchwiliad troseddol, achos sy'n aros i'w brosesu neu os na fyddai

er budd y cyhoedd, nid oes angen i’r panel ddweud wrth y deiliad swydd perthnasol. o'r tynnu'n ôl.

## 8. Ymchwiliadau

8.1. Pan fydd cwyn neu fater ymddygiad wedi’i gyfeirio at SAYH, bydd SAYH yn penderfynu a oes angen cynnal ymchwiliad. Os bydd SAYH yn penderfynu bod angen ymchwiliad, bydd yn penderfynu a ddylai fod yn ymchwiliad a reolir neu’n ymchwiliad annibynnol (Rheoliad 18 o Reoliadau 2012). Bydd SAYH yn dweud wrth y panel heddlu a throseddu am ei benderfyniad (Rheoliad 18(8) o Reoliadau 2012).

8.2. Mae ymchwiliad annibynnol yn ymchwiliad a gynhelir gan SAYH. Mewn ymchwiliadau annibynnol, mae gan ymchwilwyr SAYH bwerau cwnstabl heddlu.

8.3. Mae ymchwiliad a reolir yn ymchwiliad a gynhelir gan heddlu dan gyfarwyddyd a rheolaeth SAYH.

8.4. Ar ôl cael ei hysbysu y bydd ymchwiliad a reolir yn cael ei gynnal, mae'n rhaid i brif swyddog yr heddlu detholedig, os nad yw wedi gwneud hynny eisoes, benodi unigolyn sy’n gwasanaethu â’r heddlu i ymchwilio i’r mater (Rheoliad 19(2) o Reoliadau 2012). Mae’n bosibl y bydd SAYH yn ei wneud yn ofynnol i’r prif swyddog geisio cymeradwyaeth i’r ymchwiliad arfaethedig cyn iddo benodi unrhyw un yn y rôl hon. Fel arall, gall SAYH fynnu bod y prif swyddog yn penodi ymchwilydd arall os nad yw SAYH yn fodlon â’r ymchwiliwr gwreiddiol a ddewiswyd. Gall y penodiad dilynol hwn ddigwydd dim ond os yw SAYH wedi cymeradwyo penodiad yr ymchwiliwr newydd.

8.5. Mae’n ddyletswydd ar bob panel, pob deiliad swydd perthnasol a phob prif swyddog i roi unrhyw gymorth a chydweithrediad i SAYH sy’n rhesymol ofynnol i gynnal ymchwiliad o dan y rheoliadau. Mae'r ddyletswydd hon hefyd yn berthnasol i unigolyn a benodir i ymchwilio i ymchwiliad a reolir.

## 9. Terfyniad

9.1. Mewn rhai amgylchiadau, gall SAYH benderfynu y dylai ymchwiliad ddod i ben. Gall hyn fod naill ai oherwydd cais gan brif swyddog sy’n ymwneud â’r ymchwiliad neu o ganlyniad i benderfyniad gan SAYH ei hun (Rheoliad 24(1) o Reoliadau 2012).

9.2. Os yw prif swyddog yn credu y dylid dod ag ymchwiliad a reolir i ben, mae'n rhaid iddo wneud cais ysgrifenedig i SAYH, gan gynnwys copi o’r gŵyn (lle mae'n gymwys) a memorandwm sy’n cynnwys crynodeb o’r ymchwiliad hyd yn hyn a’r rhesymau dros y cais. Mae'n rhaid i'r cais hwn

gael ei anfon at yr achwynydd (lle mae achwynydd) ar yr un diwrnod ag y caiff ei anfon at SAYH (Rheoliadau 24(3) a (4) o Reoliadau 2012).

9.3. Ni fydd gan y panel heddlu a throseddu rôl yn y broses o wneud penderfyniad ynghylch dirwyn i ben – gwneir y penderfyniad hwn gan SAYH. Pan fydd SAYH yn penderfynu y dylid terfynu ymchwiliad, bydd yn dweud wrth y panel (Rheoliad 24(7)(a) o Reoliadau 2012).

9.4. Pan ddaw ymchwiliad i ben, gall SAYH roi cyfarwyddiadau penodol i'r panel. Bydd unrhyw gyfarwyddyd a wneir yn cael ei nodi mewn llythyr at y panel. Rhestrir y mathau o gyfarwyddiadau y gall SAYH eu gwneud isod:

- i'w gwneud yn ofynnol i'r prif swyddog gynhyrchu adroddiad ymchwiliad ar yr ymchwiliad a ddaeth i ben a chymryd unrhyw gamau dilynol eraill
- os yw'r ymchwiliad yn ymwneud â chwyn, ei gwneud yn ofynnol i'r panel ddatgymhwyso gofynion y rheoliadau
- os yw'r ymchwiliad yn ymwneud â chwyn, ei gwneud yn ofynnol i'r panel ymdrin â'r gŵyn drwy ddatrysiad fel y nodir yn Rhan 4 o'r rheoliadau
- i'w gwneud yn ofynnol i'r panel ymdrin â'r mater ym mha ffordd bynnag y mae'r y panel yn gweld yn addas (Rheoliad 24(9) o Reoliadau 2012)

9.5. Mae'n rhaid i'r panel gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddir iddo (Rheoliad 24(11) o Reoliadau 2012).

# 10. Gweithredu mewn ymateb i adroddiad ymchwiliad

10.1. Pan fydd SAYH yn derbyn adroddiad ymchwiliad (naill ai gan y swyddog heddlu sy'n ymchwilio mewn ymchwiliad a reolir, neu ei ymchwiliwr ei hun mewn ymchwiliad annibynnol) bydd yn penderfynu a ddylai'r adroddiad gael ei gyfeirio at Wasanaeth Erlyn y Goron (CPS) (Rheoliad 26 o Reoliadau 2012).

10.2. Os caiff yr adroddiad ei gyfeirio at y CPS, bydd SAYH yn dweud wrth y panel heddlu a throseddu ac unrhyw berson arall sydd â hawl i gael gwybod am yr atgyfeiriad. Bydd hefyd 12 yn ddyletswydd ar SAYH i hysbysu'r panel ac unrhyw unigolyn arall sydd â hawl i gael gwybod os bydd y CPS yn penderfynu dwyn achos troseddol am unrhyw faterion yr ymdrinnir â nhw yn yr adroddiad (Rheoliadau 26(2)(c) a (6) o Reoliadau 2012).

10.3. Bydd SAYH yn cyhoeddi adroddiad ei ymchwiliad ac yn anfon copi o'r adroddiad am y deiliad swydd perthnasol at y panel priodol. Bydd y prawf niwed yn cael ei gymhwyso i adroddiad yr ymchwiliad cyn cyhoeddi a datgelu (Rheoliadau 26(7) ac (8) o Reoliadau 2012). Gall SAYH oedi

cyn anfon neu gyhoeddi adroddiad, neu atal unrhyw ran o adroddiad rhag ei anfon neu ei gyhoeddi, os yw SAYH o’r farn bod angen gwneud hynny, at y dibenion a grybwyllir yn rheoliad 33(1)(a) neu (b) o Reoliadau 2012.

## 11. Dirprwyo pwerau a dyletswyddau

11.1. Caniateir i baneli heddlu a throsedd ddirprwyo rhai pwerau a dyletswyddau. Lle bynnag y dirprwyir unrhyw bŵer neu ddyletswydd, dylai fod cofnod clir o'r dirprwyo hwnnw. Dylai'r cofnod nodi pwy sy'n cael ei ddirprwyo, pryd y dirprwywyd, pryd y gwnaed, ei sail ac unrhyw gyfyngiadau.

## 12. Dyletswydd i ddarparu gwybodaeth i SAYH

12.1. Mae’n ddyletswydd ar bob panel heddlu a throseddu, pob deiliad swydd perthnasol, a phob prif swyddog i ddarparu unrhyw wybodaeth i SAYH, dogfennau, neu dystiolaeth sy’n ofynnol gan SAYH er mwyn iddi gyflawni ei swyddogaethau (Rheoliad 35(1) o Rheoliadau 2012).

12.2. Mae'n rhaid i unrhyw beth a ddarperir o ganlyniad i’r ddyletswydd hon gael ei ddarparu yn y ffurf, y dull a’r amserlen a nodir gan SAYH (Rheoliad 35(2) o Reoliadau 2012). Fodd bynnag, mae'r rheoliadau'n cydnabod efallai na fydd yn bosibl darparu'r wybodaeth ofynnol o fewn yr amserlen benodedig mewn rhai achosion (ac os felly mae'n rhaid ei ddarparu cyn gynted ag y mae'n ymarferol). Maent hefyd yn cydnabod, mewn rhai achosion, efallai na fydd byth yn ymarferol i ddarparu’r wybodaeth (Rheoliad 35(3) o Reoliadau 2012).

12.3. Yn y sefyllfaoedd hyn, mae’n rhaid i’r unigolyn y gwneir y cais iddo hysbysu SAYH os a pham gallai fod oedi, neu nad yw’n ymarferol darparu’r wybodaeth hon. Gellir darparu’r wybodaeth neu’r dogfennau gofynnol yn electronig, lle mae SAYH wedi’i awdurdodi neu sy'n ofynnol ganddi (Rheoliad 35(4) o Reoliadau 2012).

## 13 Mynediad i eiddo

13.1. Mae'n rhaid i banel heddlu a throseddu, deiliad swydd perthnasol a phrif swyddog ganiatáu mynediad i berson a enwebir gan SAYH i unrhyw adeiladau a feddiennir at ddibenion y panel, swyddogaethau deiliad swydd perthnasol neu brif swyddog (a dogfennau neu bethau eraill yn yr adeilad honno) ar gyfer y dibenion canlynol:

- unrhyw ymchwiliad a gynhelir gan SAYH neu o dan ei reolaeth o dan y rheoliadau, neu
- unrhyw archwiliad gan SAYH o effeithlonrwydd y systemau a roddwyd ar waith i ymdrin â chwynion a materion ymddygiad am y deiliad swydd perthnasol (Rheoliad 36(10) a (2) o Reoliadau 2012)

13.2. Lle mae gofyniad mynediad SAYH at yr ail ddiben a nodir uchod, bydd yn rhoi o leiaf 48 awr o rybudd o'r cais am fynediad i'r panel, deiliad swydd perthnasol neu brif swyddog. Os oes sail resymol dros beidio â chaniatáu mynediad i SAYH ar yr amser y gofynnir amdano, dylid caniatáu mynediad yn lle hynny ar yr amser ymarferol cynharaf ar ôl i'r seiliau hynny beidio â bodoli (Rheoliad 36(3) a (4) o Reoliadau 2012). Mae'n rhaid i'r person y gwneir y cais iddo hysbysu SAYH o'r rhesymau pam na ellir caniatáu mynediad i SAYH ar yr adeg y gofynnodd.

## 14. Cadw cofnodion

14.1. Mae'n rhaid i'r panel heddlu a throseddu gadw cofnod o:

- bob cwyn a wneir iddo, ni waeth a yw'r gŵyn wedi'i chofnodi o dan reoliad 9 o'r rheoliadau neu beidio
- bob mater ymddygiad y mae'n ei gofnodi
- bob arfer o bŵer neu gyflawni dyletswydd o dan y rheoliadau (Rheoliad 34 o Reoliadau 2012)

14.2. Byddai paneli hefyd yn cynorthwyo SAYH pe byddent yn cadw at y canllawiau a nodir yng nghanllawiau statudol SAYH ar gasglu data a monitro materion yr ymdrinnir â nhw o dan y rheoliadau.

## 15. Dyletswyddau cyffredinol

15.1. Mae gan y panel heddlu a throseddu ddyletswydd gyffredinol i sicrhau ei fod yn cael gwybod am gwynion a materion ymddygiad yn erbyn deiliad swydd perthnasol ar gyfer ardal heddlu'r panel a'r hyn a wneir o dan y rheoliadau i ymdrin â nhw. Mae'n rhaid i'r panel hefyd sicrhau ei fod yn cael ei hysbysu'n gyson am unrhyw rwymedigaethau i weithredu (neu beidio â gweithredu) sydd wedi codi ac sydd naill ai heb gydymffurfio â nhw eto neu wedi'u torri (Rheoliad 6(1) a (2) o Reoliadau 2012).

Cyhoeddwyd Mis Mawrth 2024

**© Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (2024)**

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni bai lle nodir yn wahanol.

Nid yw hyn yn cynnwys deunydd ar y wefan hon fel deunydd sy'n perthyn i drydydd partïon. Rhaid cael caniatâd i ddefnyddio deunydd o'r fath gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

I gael rhagor o wybodaeth am ein gwaith neu i ofyn am yr adroddiad hwn mewn fformat arall, gallwch gysylltu â ni mewn nifer o ffyrdd:

**Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (SAYH)**
**10 South Colonnade Canary Wharf Llundain E14 4PU**
Ffôn: **0300 020 0096**
E-bost: enquiries@policeconduct.gov.uk
Gwefan: **www.policeconduct.gov.uk**
Neges destun: **18001 020 8104 1220**

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn y Gymraeg